

Dydd Sul 6/6/21	9:45yb Mawl y Bore	5:00yh Hwyrrol Weddi ar-lein
Arwain	Mark	Mark
Blodau		
Cyfeilio	Aeron	
Darllen		Robert
Darlleniadau	<i>Genesis 3: 8-15; Actau 13: 13-16; 32-43</i>	<i>Jeremia 6: 16-21; Rhufeiniaid 9:1-13</i>
Gweddïau	Michael	Menna
Lluniaeth		
Pregethu	Mark	Mark

Dydd Sul 13/6/21	9:45yb Cymun Teuluol	5:00yh Hwyrrol Weddi ar-lein
Arwain	Mark	Mark
Blodau		
Cyfeilio	Aeron	
Darllen	Elena	
Darlleniadau	<i>Eseciel 17:22-24; Actau 14:1-20</i>	<i>Salm 39; Jeremeia 7: 1-16; Rhufeiniad 9: 14-26</i>
Gweddïau	Robert	Richard Jones
Lluniaeth		
Pregethu	Mark	Mark

14/6/21 7:00yb Cyfarfod pwyllgor yr AWL (Ar-lein)
 23/6/21 7:00yb Cyfarfod pwyllgor yr Eglwys (Ar-lein)

Gweinidog:

Parch. Mark Ansell, Fenton, Maes y Frenhines, Aberystwyth, SY23 2HL. 01970 617184 eglwysfair@gmail.com (Diwrnod bant arferol: Dydd Gwener)

Gweinidogion eraill:

Parch. **Cei Rees**, 01970 617184 cei@stmikes.net (Diwrnod bant arferol: Dydd Sadwrn)

Parch. **Liz Rees**, 01970 617184 liz@stmikes.net (Diwrnod bant arferol: Dydd Sadwrn)

Parch. **Becky Evans**, 01970 617184 becky@stmikes.net (Diwrnod bant arferol: Dydd Gwener)

Parch. **Robert Wilkinson**, 01970 617184 robert@stmikes.net (Diwrnod bant arferol: Dydd Iau)



**Eglwys y
Santes
Fair**

**y Gair
y Groes
y Gymraeg**

6^{ed} o Fehefin 2021

9:45yb Mawl y Bore

Caneuon: **140, 8, Sgrin, GM1-13, GM1-99**

5:00yh Hwyrrol Weddi ar-lein



Croeso i Eglwys y Santes Fair!

Diolch am ddod heddiw. Cynhelir gwasanaethau wythnosol yn y bore, ond mae ein gwasanaeth hwyrrol weddi yn parhau ar Zoom.

Y Drindod 1

O Dduw, nerth pawb sy'n ymddiried ynot, derbyn yn drugarog ein gweddïau a chan na allwn, gan wendid ein natur farwol, wneud dim da hebot ti, caniatâ inni gymorth dy ras, fel wrth gadw dy orchmynion y bo i ni dy foddhau ar ewyllys a gweithred;

trwy Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd, sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi, yn undod yr Ysbryd Glân, yn un Duw, yn awr ac am byth. **Amen.**

Bydd yr Ysgol Sul i blant a phobl ifanc yn ailddechrau cyn bo hir.



Mae system dolen anwytho yn yr eglwys. Trowch eich teclyn clyw i'r gosodiad pwrpasol.



Gweddï Eglwys y Santes Fair

Arglwydd Iesu, addewaist adeiladu dy eglwys. Felly, os gweli di fod yn dda, adeilada dy eglwys yn ein plith. Cymorth ni i ddyfnhau ein perthynas â thi, a chynydda'r nifer o Gristnogion newydd sy'n addoli yma trwy gydol y flwyddyn, er mwyn dy anrhydedd yn y plwyf hwn. **Amen.**

www.eglwysfair.cymru



Eglwys y Santes Fair, Aberystwyth



@eglwysfair

Newyddion Teulu'r Eglwys

Rota Glanhau

Mae'n bwysig ein bod ni'n glanhau adeilad ein heglwys yn rheolaidd, ac mae angen mwy o wirfoddolwyr ar ein rota. Torrwch eich enw ar y rhestr yn y cyntedd os ydych chi'n gallu helpu, os gwelwch chi'n dda.

Gwasanaethau ar-lein

Mae gwasanaeth ar-lein am 5:00yh bob nos Sul drwy raglen Zoom. Bydd angen rhif y cyfarfod – sef 964 3320 1895 – a'r cyfrinair, sef 1588. Gallwch ymuno drwy ffôn hefyd: Ffoniwch - 0203 051 2874 ac wedyn rhwch rhif y cyfarfod, wedyn yr allwedd #, wedyn 1588 wedyn # eto.

Church Suite

Mae'r plwyf wedi mabwysiadu ap newydd i'r ffon a chyfrifiadur – *Churchsuite*, lle ceir gwybodaeth am ddigwyddiadau'r eglwys. Ewch i <https://login.churchsuite.com/> am fwy o wybodaeth, neu lawrlwytho'r ap i'ch ffôn.

Yn Eglwys y Santes Fair...

rydym yn **creu cymuned sy'n caru'n cymdeithas** er mwyn **cyflwyno Crist.**



Genesis 3: 8-15

⁸A chlywsant sŵn yr ARGLWYDD Dduw yn rhodio yn yr ardd gyda hwy'r dydd, ac ymguddiodd y dyn a'i wraig o olwg yr ARGLWYDD Dduw ymysg coed yr ardd. ⁹Ond galwodd yr ARGLWYDD Dduw ar y dyn, a dweud wrtho, "Ble'r wyt ti?" ¹⁰Atebodd yntau, "Clywais dy sŵn yn yr ardd, ac ofnais oherwydd fy mod yn noeth, ac ymguddiais."

¹¹Dywedodd yntau, "Pwy a ddywedodd wrthynt dy fod yn noeth? A wyt ti wedi bwyta o'r pren y gorchymynais iti beidio â bwyta ohono?" ¹²A dywedodd y dyn, "Y wraig a roddaist i fod gyda mi a roes i mi o ffrwyth y pren, a bwyteais innau." ¹³Yna dywedodd yr ARGLWYDD Dduw wrth y wraig, "Pam y gwnaethost hyn?" A dywedodd y wraig, "Y sarff a'm twyllodd, a bwyteais innau."

Dedfryd Duw

¹⁴Yna dywedodd yr ARGLWYDD Dduw wrth y sarff:

"Am iti wneud hyn, yr wyt yn fwy melltigidig na'r holl anifeiliaid, ac na'r holl fwystfilod gwyllt; byddi'n ymlusgo ar dy dor, ac yn bwyta llwch holl ddyddiau dy fywyd.

¹⁵Gosodaf elyniaeth hefyd rhyngot ti a'r wraig, a rhwng dy had di a'i had hithau; bydd ef yn ysigo dy ben di, a thithau'n ysigo'i sawdl ef."

Actau 13: 13-16; 32-43

Paul a Barnabas yn Antiochia Pisidia

¹³Wedi hwylio o Paffos, daeth Paul a'i gymdeithion i Perga yn Pamffylia. Ond cefnodd loan arnynt, a dychwelyd i Jerwsalem. ¹⁴Aethant hwythau yn eu blaenau o Perga a chyrraedd Antiochia Pisidia, ac aethant i'r synagog ar y dydd Saboth, ac eistedd yno. ¹⁵Ar ôl y darllen o'r Gyfraith a'r proffwydi, anfonodd arweinwyr y synagog atynt a gofyn, "Frodyr, os oes gennych air o anogaeth i'r bobl, traethwch." ¹⁶Cododd Paul, ac wedi amneidio â'i law dywedodd:

"Chwi Israeliaid, a chwi eraill sy'n ofni Duw, gwrandewch.

³²Yr ydym ninnau yn cyhoeddi i chwi newydd da am yr addewid a wnaed i'r hynafiaid, fod Duw wedi ei llwyr gyflawni hi i ni eu plant trwy atgyfodi Iesu, ³³fel y mae'n ysgrifenedig hefyd yn yr ail Salm:

" 'Fy mab wyt ti; myfi a'th genhedlodd di heddiw.'

³⁴"Ac am ei atgyfodi ef oddi wrth y meirw, byth i ddychwelyd mwy i lygredigaeth, y mae wedi dweud fel hyn:

" 'Rhoddaf i chwi y pethau sanctaidd sy'n perthyn i Ddafydd, y pethau sicr.'

³⁵"Oherwydd mewn lle arall eto y mae'n dweud:

" 'Ni adewi i'th Sanct weld llygredigaeth.'

³⁶"Canys Dafydd, wedi iddo yn ei genhedlaeth ei hun wasanaethu ewyllys Duw, a fu farw, ac a roddwyd i orffwys gyda'i dadau, a gwelodd lygredigaeth; ³⁷ond yr hwn a gyfododd Duw, ni welodd hwnnw lygredigaeth. ³⁸Felly bydded hysbys i chwi, frodyr, mai trwy hwn y cyhoeddir i chwi faddeuant pechodau, ³⁹a thrwy hwn y rhyddheir pawb sy'n credu oddi wrth yr holl bethau nad oedd modd eich rhyddhau oddi wrthynt trwy Gyfraith Moses. ⁴⁰Gwylwch, ynteu, na ddaw arnoch yr hyn a ddywedwyd yn y proffwydi:

⁴¹" 'Gwelwch, chwi ddirmygwyr, a rhyfeddwch, a diflannwch, oherwydd yr wyf fi'n cyflawni gweithred yn eich dyddiau chwi, gweithred na chredwch ynddi byth, er ei hadrodd yn llawn ichwi.' "

⁴²Wrth iddynt fynd allan, yr oedd y bobl yn deisyf arnynt i lefaru'r pethau hyn wrthynt y Saboth wedyn. ⁴³Wedi i'r gynulleidfa gael ei gollwng, aeth llawer o'r Iddewon, ac o'r proselytiaid oedd yn addolwyr Duw, ar ôl Paul a Barnabas, a buont hwythau yn llefaru wrthynt ac yn eu hannog i lynu wrth ras Duw.